PATRW M GWAITH Dydd Llun i ddydd Gwener 9am i 5pm (Byddwn yn ymdrechu i gydbwyso y dyddiau gwaith a ffafir gydag anghenion gweithredol y gwasanaeth).

LLEOLIAD: Neuadd y Sir Brynbuga fel prif weithle, ond bydd mwyafrif y gwaith mewn ysgolion a safleoedd cymunedol ar draws Sir Fynwy ac o bosibl yn gweithio gartref weithiau. Gall hyn newid os oes angen i leoliadau gwasanaeth ad-leoli. Ni chaiff treuliau adleoli neu ymyriad eu talu os yw hyn yn digwydd.

DROS DRO: Ie, tan 31 Mawrth 2022. Lle mae cyllid yn caniatáu hynny byddwn yn gweithio'n galed i greu cyflogaeth barhaus ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.

GWIRIAD GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)

Mae penodiad i'r swydd hon wedi ei wahardd o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr a chynhelir **Gwiriad Estynedig gyda Gwiriad Rhestr Gwahardd Rhag Gweithio gyda Phlant**

CYFRIFOL i: Nathan Meredith (Rheolwr Cwnsela mewn Ysgolion ac yn y Gymuned)

ASESIAD SGILIAU YN Y GYMRAEG: Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

DYDDIAD CAU: 12 canol-dydd ddydd Gwener 29 Hydref 2021

Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion ac yn y Gymuned – *pwy ydym ni*

Mae'r gwasanaeth yn Sir Fynwy yn gweithredu mewn pedair ysgol gynradd, mewn lleoliadau addysg darpariaeth amgen, mewn safleoedd cymunedol ac ar-lein a dros y ffôn (ffôn/sain, fideo, sgwrs, e-bost). Fel cwnselydd yn ymuno â'n gwasanaeth byddwch yn cael cyfle i gyflwyno eich sgiliau gan weithio gyda phobl ifanc 11-18 oed a'r themâu therapiwtig neilltuol a ddaw gyda'r grŵp hwn o gleientiaid.

Mae'r tîm cwnsela yn rhan o'r Gwasanaeth Therapiwtig a Chymorth i Deuluoedd ehangach sy'n cynnwys therapyddion teulu, therapyddion chwarae, a gweithwyr therapiwtig uniongyrchol.

Ein diben

Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan gyfannol o gynnis Llesiant Cyngor Sir Fynwy i bobl ifanc. Gyda phresenoldeb wyneb i wyneb mewn ysgolion uwchradd, lleoliadau addysg amgen, safleoedd cymunedol a gyda'n opsiynau therapi ar-lein a dros y ffôn, mae'r gwasanaeth yn anelu i fod yn hygyrch i bob person ifanc a all ofyn am gymorth. Gyda chysylltiadau cryf gyda phrosesau aml-asiantaeth yn y sir (tebyg i'r Panel Help Cynnar), mae'r gwasanaeth cwnsela ar flaen y gad mewn dull gweithredu systemig at lesiant pobl ifanc.

Diben y Rôl

- Darparu Cwnsela i bobl ifanc sydd wedi cyfeirio eu hunain, neu wedi cael eu cyfeirio, a'u cefnogi hwy gyda'u hiechyd a lles emosiynol.
- Medru cefnogi pobl ifanc i fynegi eu meddyliau a'u teimladau a'n gwneud hynny o fewn profiadau fel cam-drin a thrawma, hunan-niweidio a syniadau am hunanladdiad, gwrthdaro teuluol a newid, themâu adnabod a straen academaidd.
- Gweithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, defnyddio gwybodaeth cwnsela ac arbenigedd er mwyn cryfhau'r ymdrechion amlddisgyblaeth a gwella'r canlyniadau i bobl ifanc.
- Cynnal asesiadau ac arferion gwerthuso a chynorthwyo gyda chymryd rhan a llunio adroddiadau fel modd o gynnis tystiolaeth o effaith y gwasanaeth.

Disgwyliad a Deilliannau'r Rôl

Mae'n nod gan y gwasanaeth fod gan bobl ifanc yn Sir Fynwy fynediad i dîm staff medrus a chyson ac yn cael cyfle i gyflawni deilliannau sy'n bwysig iddynt. Disgwylir i chi fod yng ngofal llwyth achos o gleientiaid a bod yn gyfrifol am weithio o fewn eich meysydd cymhwysedd a hyfedredd. Rhaid i gwnselwyr fedru rheoli eu hamser yn dda a bod â dealltwriaeth gadarn a chymhwysiad arferion hunan ofal. Mae prosesau cofnodi sy'n adeiladu ar yr allbynnau a'r deilliannau hyn. Cewch gefnogaeth dda drwy holl agweddau'r rôl ac mewn dull sy'n anrhydeddu'r awtonomi ac annibyniaeth neilltuol a ddaw gyda'r proffesiwn cwnsela.

Diogelu:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Cyfrifoldebau'r swydd:

1. Darparu sesiynau cwnsela i unigolion a grwpiau o bobl ifanc sydd yn profi rhyw fath o drafferthion emosiynol ac ymddygiadol (fel hwyliau isel, gorbryder, dichter, hunan-niweidio, meddwl am hunanladdiad), a hynny o fewn cyd-destunau gyda themâu fel colled, cam-drin, trawma, a phrofiadau datblygu eraill.
2. Helpu pobl ifanc i fynegi eu meddyliau a'u teimladau o fewn y profiadau hynny, ac i ddatblygu strategaethau datblygedig mewnol ac allanol.
3. Medru cynnig a defnyddio arbenigedd cwnsela sydd yn caniatáu apwyntiadau ffurfiol a darparu cwnsela mewn lleoliadau penodol e.e. ysgolion uwchradd, safleoedd cymunedol cleientiaid (yn achos OPT).
4. Dangos gwytnwch a bod bwylllog tuag at bobl ifanc sydd yn cyflwyno heriau ar lafar a'n gorfforol o ran eu hawyrgylch a'r staff dysgu, neu a all fod yn betrus i roi eu hanghenion mewn geiriau a dangos llawer o bryder wrth gwrdd â phobl newydd. Byddwch yn fedrus iawn o ran eich sgiliau cyfathrebu ac iaith eich corff ar adegau gwahanol er mwyn adeiladu rapport gyda chleientiaid.
5. Medru defnyddio dealltwriaeth o'r berthynas therapiwtig sydd yn ymgysylltu pobl ifanc fel unigolion ar wahân i'r problemau sydd ganddynt. Gweithio gyda meddylfryd cynhwysol ac yn medru ystyried sut mae pobl ifanc yn profi arwahanrwydd, yn benodol ac yn gyffredinol yn eu bywydau.
6. Cymryd rhan mewn arferion asesu a gwerthuso fel mater o drefn. Mae hyn yn cynnwys dulliau ansoddol o grynhoi cryfderau ac anawsterau, ffactorau cyd-destunol, ystyron cleientiaid a nodau ar gyfer y cymorth. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb ansoddol o anghenion a deilliannau drwy YPCore.
7. Gweithio ag ethos ysgol gyfan a fydd yn arwain at ganlyniadau cyffredinol ac unigol. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd i staff aml-asiantaeth sydd yn ymwneud gyda'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion; cyfathrebu gyda ffynonellau cyfeirio a/neu weithwyr proffesiynol perthnasol fel sydd angen er mwyn gwella effeithiolrwydd y ddarpariaeth gwnsela. Gallai hefyd gynnwys cyflwyno gweithdai neu ddefnyddio eich creadigrwydd i gyfoethogi arddangosiadau, taflenni neu adnoddau er mwyn codi ymwybyddiaeth o gwnsela.

8. Gweithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, yn manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd er mwyn cryfhau'r ymdrechion aml-ddisgyblaethol a'n gwella canlyniadau i bobl ifanc. Mae'r fath gydweithio yn medru cynnwys rhannu strategaethau i adeiladu rhwydweithio a fydd yn helpu gwaith y gweithwyr proffesiynol eraill; neu'n defnyddio'r wybodaeth am ddatblygiad plant er mwyn helpu teuluoedd i ddeall anghenion eu plant.
9. Cyfrannu at gyfarfodydd proffesiynol tebyg i grwpiau craidd, cydlynu gofal neu gyfarfodydd llesiant disgyblion fel sydd angen.
10. Cynorthwyo gyda gwerthuso effaith a gwerth y gwasanaeth drwy ffyrdd cyfranogol a llunio adroddiadau. Mae hyn yn cynnwys casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth am y gefnogaeth, a hwyluso ymdrechion sydd yn cael eu harwain gan bobl ifanc er mwyn llywio'r gwasanaeth. Darparu astudiaeth achos a phersbectif ymarferwyr ar y broses/effaith y gwasanaeth. Casglu themâu YPCore fel bod y gwasanaeth yn medru paratoi adroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Sicrhau bod unrhyw wersi o'r data yn cael eu dysgu a'u hymgorffori i mewn i'r gwasanaeth.
11. Cadw cofnodion cyfredol a chyfrinachol o'r holl bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chynnal a monitro systemau gweinyddol priodol yng nghyswllt atgyfeiriadau cleient ac olrhain llwyth achos.
12. Sicrhau eich bod wedi cofrestru'n barhaol gyda'r BACP/UKCP/HCPC neu'r corff achredu cyfatebol a gweithio o fewn y canllawiau sydd wedi eu gosod gan y corff.
13. Cwblhau 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus sydd yn sicrhau eich bod yn diweddarau eich gwybodaeth a'ch sgiliau (gan gynnwys diweddariadau am Weithdrefnau Diogelu Plant). Dylai hyn ddiwallu anghenion at ddiben archwilio gan y corff achredu. Cynnal ymwybyddiaeth o newidiadau mewn deddfwriaeth a datblygiadau mewn ymchwil ac arfer da.
14. Mynychu sesiynau Goruchwyliaeth Glinigol misol (o leiaf).
15. Mynychu cyfarfodydd gyda'ch rheolwr llinell yn gyson..
16. Mynychu cyfarfodydd tîm fel a phan fo angen.
17. Bod yn hyblyg o ran ymagwedd, darpariaeth ac oriau gwaith.
18. Gweithredu polisiâu a gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion a Chymunedol a'r Gwasanaeth Therapiwtig a Chymorth i Deuluoedd yn fwy eang.
19. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol. Rhaid i aelodau staff gydymffurfio gyda'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant (a lle mae angen, yr asesiadau risg dilynol a gynhaliwyd) a chanllawiau eraill o'r fath sy'n cefnogi

eu gwaith. Mae'r awdurdod yn gweithredu Polisi Gweithle Di-fwg ac mae'n ofynnol i'r holl aelodau staff ddilyn hynny.

20. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd eu hangen dan Ddeddf Diogelu Data 2018 i gymryd gofal rhesymol na chaiff unrhyw ddata personol ei golli neu ei ddatgelu heb awdurdod.
21. Gweithio ar y cyd gyda'r Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu ac Arweinwyr Diogelu a enwyd (a ddynodir mewn ysgolion, y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion ac yn y Gymuned a'r Gwasanaeth Therapiwtig a Chymorth i Deuluoedd). Gwybod am bolisi'r awdurdod lleol ar Ddiogelu a chydymffurfiaeth ehangach ar Weithdrefnau Cymru ar Ddiogelu Plant . Lle bo angen, gwneud atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant petai datgeliad a/neu bryder bod plentyn/person ifanc 'mewn angen' neu mewn perygl o gael niwed sylweddol. Cynnal dogfennaeth gywir, gyfrinachol a chyfredol ar bob achos o ddiogelu ac amddiffyn plant.

Dyma'r hyn y gallwn ei ddarparu i chi:

- Cefnogaeth ansawdd uchel
- Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu i ddatblygu fel ymarferydd
- Cyfleoedd i ymarfer yn greadigol
- Y cyfle i weithio fel rhan o wasanaeth cyffrous, sy'n datblygu a gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau a chyfleoedd bywyd plant a theuluoedd yn Sir Fynwy.

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Dyma Werthoedd Cyngor Fynwy:

Tryloywder: Rydym am geisio bod yn agored ac onest er mwyn datblygu perthynas lle y mae pobl yn medru ymddiried yn ei gilydd.

Tegwch: Rydym am geisio cynnig dewis teg, cyfleoedd a phrofiad ac i ddod yn fudiad lle y mae'r naill yn parchu'r llall.

Hyblygrwydd: Rydym am geisio bod yn hyblyg wrth feddwl a gweithredu er mwyn dod yn fudiad effeithiol ac effeithlon.

Gwaith tîm: Rydym am geisio gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

Manyleb Person

Sut fyddwn ni'n gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus byddwch wedi dangos:-

ANGHENION	HANFODOL/ DYMUNOL	SUT Y CAIFF HYN EI BROFI
1. ADDYSG/CYMWYSTERAU		
<ul style="list-style-type: none"> Diploma Lefel 4 neu Gymhwyster Gradd mewn Cwrsela a/neu Seicotherapi sy'n rhoi'r teitl o "gwrselydd" neu "seicotherapydd" cymwys fel a roddir gan gorff achredu sylweddol (e.e. BACP/NCS/UKCP) 	Hanfodol	Ffurflen Gais
<ul style="list-style-type: none"> Cymhwyster ôl-radd mewn Cwrsela a/neu Seicotherapi gan arbenigo mewn Plant a'r Glasoed 	Dymunol	Ffurflen Gais
<ul style="list-style-type: none"> Cymhwyster ôl-radd mewn Cwrsela a/neu Seicotherapi mewn therapi ar-lein a dros y ffôn 	Dymunol	Ffurflen Gais
<ul style="list-style-type: none"> Bydd hyfforddiant sy'n cymhwyso wedi cynnwys dysgu ar y mathau o anawsterau seicolegol sy'n wynebu plant a phobl ifanc, damcaniaeth datblygiadol a'r modelau damcaniaethol yn berthnasol i'r grŵp cleient hwn. 	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> Bydd hyfforddiant sy'n cymhwyso wedi cynnwys ar ddulliau cydamserol ac anghydamserol o gwrsela a therapi o bell, gyda dysgu penodol ar y pwysleisiau a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y mathau hynny o waith. 	Dymunol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> Aelod llawn o Gorff Proffesiynol Cwrsela a Seicotherapi achredu sylweddol e.e. BACP/NCS/UKCP/HCPC 	Hanfodol	Ffurflen Gais
<ul style="list-style-type: none"> Aelod llawn o gorff therapi achredu ar-lein a ffôn e.e. ACTO. 	Dymunol	Ffurflen Gais



2. PROFIAD		
<ul style="list-style-type: none"> • Cwnsela pobl ifanc yn y grŵp oedran 11-18, neu o leiaf, brofiad o weithio gyda'r grŵp oedran hwnnw mewn swydd arall gyda ffocws ar lesiant. • Gweithio mewn lleoliad ysgol neu leoliad lle mae pobl ifanc yn gweithio tuag at ddeilliannau emosiynol a datblygiadol (e.e clybiau cymunedol) • Cynllunio, paratoi a chynnal grwpiau i bobl ifanc sydd yn ffocysu ar emosiynau a datblygiad. • Gwneud asesiadau a ffurfio ymyriad therapiwtig. • Darparu cefnogaeth drwy gyfrwng dulliau rhithiol e.e. ffôn, ar-lein. • Gweithio gydag asiantaethau eraill gyda thystiolaeth o brofiad amlddisgyblaeth sy'n helpu i sicrhau newid cadarnhaol yn seiliedig ar faterion a godir gan bobl ifanc. 	<p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Dymunol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Dymunol</p> <p>Hanfodol</p>	<p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p>
3. GWYBODAETH		
<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth o'r ystod o drafferthion seicolegol a wynebir gan bobl ifanc. • Dealltwriaeth o effaith heriau datblygol ar brofiadau trawma, yn enwedig o ran dysgu, datrys problemau a gallu gwybyddol. • Y gallu i ddeall trafferthion pobl ifanc drwy fframiau damcaniaethol fel y theori ymlyniad. • Gwybodaeth waith o anghenionl anghenion plant sy'n derbyn gofal, plant sydd angen gofal, achosion amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn risg o beidio bod mewn 	<p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Dymunol</p>	<p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p>



<p>addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth o'r anawsterau a thensiynau cynhenid pan yn gweithio'n gyfrinachol a themâu cymhwysedd Gillick, yn enwedig tuag at sefydliadau addysgol a cheisiadau oedolion sy'n aelodau o'r teulu i gael eu cynnwys yn y broses cwnsela. • Gwybodaeth o arferion therapiwtig creadigol a sut y mae'r rhain yn medru hwyluso datblygiad y gwasanaeth pan yn gweithio gyda phobl anodd eu cyrraedd neu sydd yn gwrthod ymgysylltu. • Dealltwriaeth o'r cyfyngiadau o ddulliau ymddygiadol er mwyn cefnogi lles pobl ifanc, a'r angen am farn systemig ynglŷn â sut y mae pobl ifanc yn cyflwyno problemau mewn sefydliadau addysgol. • Gwybodaeth waith dda o bolisïau perthnasol a deddfwriaeth yn gysylltiedig â phobl ifanc a theuluoedd, yn neilltuoel Weithdrefnau Diogelu Cymru. 	<p>Hanfodol</p> <p>Dymunol</p> <p>Dymunol</p> <p>Hanfodol</p>	<p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p>
<p>3. SGILIAU YMARFER A DONIAU CYFATHREBU</p>		
<ul style="list-style-type: none"> • Hawdd mynd atoch ac yn medru cyfathrebu yn effeithiol gyda phobl ifanc a theuluoedd; gan gynnwys y gallu i ddatblygu a chynnal cynghreiriau therapiwtig. • Gallu i weithio ar eich cymhelliant eich hun ac o fewn tîm, mewn ffordd sy'n ategu ffocws unigol sesiynau cwnsela un i un ond hefyd yn manteisio ar gyfathrebu aml-ddisgyblaethol. • Gallu cysoni gwybodaeth cwnsela 	<p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p>	<p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/ Cyfweliad</p> <p>Ffurflen Gais/</p>



<p>a chyflwyno ymarfer mewn cyd-destunau sy'n gorgyffwrdd h.y. lle gall fod llu o rolau, gwahanol agendâu proffesiynol a charfannau o bobl ifanc gydag anghenion gwahanol.</p>		Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Defnyddio arferion therapiwtig creadigol er mwyn gwella'r broses o ymgysylltu cleientiaid neu'r canlyniadau. Er enghraifft, yn defnyddio practis naratif, cyfryngau synhwyraidd neu arferion celflunio.	Dymunol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Ymroddiad at ddarparu gwasanaeth sydd yn effeithiol, effeithlon a chyfrinachol lle y mae cynnwys pobl ifanc o'r pwysigrwydd mwyaf.	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Yn hawdd ymddiried ynddoch chi a gweithredu gyda chywirdeb ar bob amser gyda ffiniau proffesiynol a chlinigol eglur.	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Ymroddiad at ddatblygiad proffesiynol, hunanwerthuso terfynau cymhwysedd a phrosesau gwerthuso mwy ffurfiol.	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Defnyddio prosesau rheoli llinell a goruchwyllo i gynorthwyo gwneud penderfyniadau mosegol, ac yn neilltuol tuag at waith achos cymhleth neu'n sy'n ymwneud â diogelu.	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Gallu cynhyrchu adroddiadau clir gan ddangos sgiliau ysgrifenedig.	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Sgiliau trefnu a'r gallu i flaenoriaethu.	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none">• Gallu cynnal cofnodion eglur a chryno.	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad



<ul style="list-style-type: none">Hyddysg wrth ddefnyddio cyfrifiadur a dangos parodrwydd i ddysgu sgiliau newyddTrwydded yrru lawn a chyfredol.	Dymunol Dymunol	Ffurflen Gais/ Cyfweliad Ffurflen Gais
5. CYFLE CYFARTAL		
<ul style="list-style-type: none">Yn fodlon cydymffurfio gda Pholisi Cyfle Cyfartal, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb.Y gallu i ddarparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg	Hanfodol Dymunol*	Ffurflen Gais Ffurflen Gais
6. AMGYLCHIADAU ARBENNIG		
Bydd apwyntiad i'r rôl yn amodol ar Wiriad Datgeliad Estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Hanfodol	Cyfweliad

- Y Gymraeg yn Dymunol:** Gall fod angen i chi ddysgu neu wella eich sgiliau prsennol drwy fynychu hyfforddiant yn y Gymraeg i staff a ariannir gan y Cyngor. Gweithredir hyn os oes angen yn codi am sgiliau Cymraeg yn y swydd.

Os ydych angen mw o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch os gwelwch yn dda â Nathan Meredith, Rheolwr Cwnsela mewn Ysgolion ac yn y Gymuned (Ffôn: 07980 912391 / nathanmeredith@monmouthshire.gov.uk)

**Dyddiad Cau: 12 canol-dydd ddydd Gwener
29 Hydref 2021**

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG

LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgysiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. ➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyddestun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.



➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. ➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. ➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. ➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. ➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. 	➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. ➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth ➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. ➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. ➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. ➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.